Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

## Datganiad Di-ffosil

Nid oes gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam unrhyw fuddsoddiadau mewn cwmnïau sy'n echdynnu tanwyddau ffosil, fel Royal Dutch Shell a BP, ac mae'n ymrwymo i sicrhau na fydd cwmnïau o'r fath yn cael eu cynnwys mewn unrhyw fuddsoddiadau a wnawn yn y dyfodol.

Pam? Gan ein bod wedi ymrwymo i ddiogelu hinsawdd sy'n addas i bawb fyw ynddi.

Ym mis Rhagfyr 2015, ymrwymodd 195 o wledydd i ymrwymiad rhyngwladol cyfreithiol-rwymol yn ymwneud â chadw cynhesu byd-eang rhwng 1.5 a 2 radd – y cytundeb cyntaf o'i fath.

Mae prifysgolion yn bodoli er lles y cyhoedd – o fynd i'r afael â gwaith ymchwil a all drawsnewid bywydau, i addysgu dinasyddion byd-eang ac arweinwyr y dyfodol. Ond maent hefyd ar flaen y gad mewn perthynas â gwaith ymchwil yn ymwneud â newid hinsawdd. O'r herwydd, credwn ei bod hi'n bwysig inni beidio â buddsoddi mewn diwydiant sy'n meddu ar 5 gwaith yn fwy o gronfeydd tanwydd ffosil nag sy'n ddiogel i'w llosgi o fewn y paramedrau cynhesu byd-eang, sef rhwng 1.5 a 2 radd.

Mae myfyrwyr o bob rhan o'r byd yn astudio gyda ni. Mae nifer ohonynt yn dod o gymunedau yn Ne'r Byd sydd eisoes ar reng flaen y newid yn yr hinsawdd ac sy'n teimlo'r effeithiau yn barod. Rydym eisiau diogelu dyfodol pob un o'n myfyrwyr – ein myfyrwyr presennol a'n myfyrwyr yn y dyfodol.

Cydnabyddwn fod mwy na chwarter sefydliadau Addysg Uwch y DU wedi ymrwymo hyd yn hyn i ddadfuddsoddi yn y cwmnïau yma mewn rhyw ffordd, a dymunwn ychwanegu ein llais at y mudiad hwn.


Un ffordd o wireddu'r penderfyniad hwn yw croesawu ein rôl fel endidau sy'n arwyddocaol yn fyd-eang, endidau sy'n adlewyrchu ein dymuniad i fod yn rhan o'r pontio cyfiawn tuag at economi carbon isel.

Gobeithio y bydd llawer mwy o'n cyd-sefydliadau addysgol yn ymuno â

ni.

I'r perwyl hwn, mae'r brifysgol yn datgan:

- Nad oes ganddi unrhyw fuddsoddiadau ar hyn o bryd mewn cwmnïau sy'n echdynnu tanwyddau ffosil.
- Na fydd byth yn buddsoddi mewn cwmnïau o'r fath.



**Vice-Chancellor and Chief Executive**